


Cronfa Bensiynau Clwyd

Polisi Rheoli Risg

Mawrth 2024



Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?	3
Nodau ac Amcanion	4
Beth yw Risg a Rheoli Risg?.....	5
Beth yw Risg?	5
Beth yw Rheoli Risg?	5
Ein Hathroniaeth yn ymwneud â Rheoli Risg.....	5
Gofynion y Ddeddf Pensiynau, Y Rheoleiddiwr Pensiynau a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)	6
Gofynion Rheolaethau Mewnol Y Ddeddf Pensiynau.....	6
Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau.....	6
Cyhoeddiad Rheoli Risg CIPFA	7
Egwyddorion Llywodraethu Cyfuno Buddsoddiadau CIPFA ar gyfer Awdurdodau Gweinyddu CPLIL.....	8
Cais i Gronfa Bensiynau Clwyd.....	8
Swyddogaethau a Chyfrifoldebau.....	8
Proses Rheoli Risg Cronfa Bensiynau Clwyd	11
Adnabod Risg	11
Dadansoddi Risg.....	12
Rheoli risg.....	13
Monitro risg	14
Adrodd	14
Uwchgyfeirio Risg.....	15
Monitro'r Polisi hwn	18
Risgiau allweddol i ddarparu'r Polisi hwn yn effeithiol	18
Costau	18
Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori	18
Rhagor o Wybodaeth	19
Atodiad A Meini prawf ar gyfer asesu effaith a thebygrwydd.....	20
Meini prawf ar gyfer asesu tebygrwydd	20
Meini prawf ar gyfer asesu effaith.....	21

Cyflwyniad

Mae Polisi Rheoli Risg Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac mae'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'r Polisi'n rhoi manylion ynghylch y strategaeth rheoli risg ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, gan gynnwys:¹

- yr athroniaeth risg ar gyfer rheoli'r Gronfa, ac yn benodol agweddau tuag at, a'r parodrwydd ar gyfer wynebu risg
- sut y caiff rheoli risg ei weithredu
- cyfrifoldebau o ran rheoli risg
- y gweithdrefnau a fabwysiedir yn y broses rheoli risg

Rydym yn cydnabod fod rheoli risg yn effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da. Drwy adnabod a rheoli risgiau drwy strategaeth rheoli risg a pholisi effeithiol, gallwn:

- ddangos yr arfer orau o ran llywodraethu
- sicrhau gweinyddiaeth ansawdd uchel
- gwella rheolaeth ariannol
- lleihau'r risg a'r effaith o amodau niweidiol
- nodi a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a allai godi
- lleihau bygythiadau

Rydym yn mabwysiadu rheolaeth risg arfer orau, a fydd yn cefnogi dull gweithredu strwythuredig ac sydd â ffocws tuag at reoli risgiau, a sicrhau fod rheoli risg yn rhan ganolog o lywodraethiant Cronfa Bensiynau Clwyd ar lefel strategol a gweithredol.

I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr y cyflogwyr ac aelodau'r cynllun. Mae hefyd yn berthnasol i'r holl reolwyr yn Nhîm Rheoli Cronfa Bensiynau Cyngor Sir y Fflint (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) a'r Prif Weithredwr (o hyn allan cyfeirir atynt fel uwch swyddogion y Gronfa).

Mae swyddogion eraill sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa Bensiynau yn ddyddiol hefyd yn hanfodol o ran rheoli risg ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, a bydd angen iddynt fod â dealltwriaeth briodol o reoli risg yn ymwneud â'u swyddi, a fydd yn cael ei bennu a'i reoli gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'i dîm/ei thîm.

Disgwylir hefyd i Gynghorwyr Cronfa Bensiynau Clwyd fod yn ymwybodol o'r Polisi hwn, a chynorthwyo uwch swyddogion, aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Bwrdd fel bo'r angen, i

Pan fyddwn yn cyfeirio at Gyngor Sir y Fflint yn ei rôl fel rheolwr y Gronfa, efallai y byddwn yn defnyddio'r term "Awdurdod Gweinyddu"; "Rheolwr y Cynllun" neu'r "Corff Llywodraethu" gan fod y rhain i gyd yn ymddangos yn y Rheoliadau neu ganllawiau.

gwrdd ag amcanion y Polisi hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar y swyddi a chyfrifoldebau sy'n berthnasol o ran rheoli ar gyfer y Polisi hwn wedi'i gynnwys yn yr adran isod.

Nodau ac Amcanion

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein rôl fel Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd ar ran ei fudd-ddeiliaid sy'n cynnwys:

- tua 50,040 o aelodau presennol a chyn-aelodau'r Gronfa, a'u dibynyddion
- tua 52 o gyflogwyr yn ardaloedd Cyngorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam
- y trethdalwyr lleol yn yr ardaloedd hynny

Datganiad o Fwriad y Gronfa yw:

- Byddwn yn cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'r holl gwsmeriaid.
- Byddwn wedi meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg, llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig, o'r ansawdd uchaf, o fewn ein hadnoddau
- Byddwn yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Un o'n prif amcanion llywodraethu yw deall a monitro risg. Wrth wneud hyn, byddwn yn anelu i:

- integreiddio rheoli risg, gan gynnwys rheolaethau mewnol cadarn, i ddiwylliant a gweithgareddau dyddiol y Gronfa
- codi ymwybyddiaeth o'r angen am reoli risg gan bawb sy'n gysylltiedig â rheoli'r Gronfa (gan gynnwys ymgynghorwyr, cyflogwyr a phartneriaid eraill)
- rhagweld ac ymateb yn gadarnhaol i newid
- lleihau'r tebygolrwydd o ganlyniadau negyddol ar gyfer y Gronfa a'i budd-ddeiliaid
- sefydlu a chynnal fframwaith a gweithdrefnau cadarn er mwyn adnabod, dadansoddi, asesu a rheoli risg, ac adrodd am, a chofnodi digwyddiadau, yn seiliedig ar yr arfer orau
- sicrhau gweithredu'r fethodoleg rheoli risg yn gyson ar draws holl weithgareddau'r Gronfa Bensiynau, gan gynnwys prosiectau a phartneriaethau

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion hyn wrth reoli Cronfa Bensiynau Clwyd byddwn yn ceisio cydymffurfio gyda:

- chyhoeddiad Rheoli Risg Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)
- yr elfennau rheoli risg yng nghanllaw Egwyddorion Llywodraethu Cyfuno Buddsoddiadau CIPFA ac
- elfennau rheoli risg Deddf Pensiynau 2004 a Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus

Gan mai Cyngor Sir y Fflint sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa, byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i Fframwaith Rheoli Risg Cyngor Sir y Fflint, ac yn arbennig yn sicrhau fod risgiau'r Gronfa wedi'u sgorio'n mewn modd sy'n gyson â'r Fframwaith hynny.

Beth yw Risg a Rheoli Risg?

Mae ein polisi yn seiliedig ar y diffiniadau canlynol o risg a rheoli risg, sy'n deillio o Fframwaith Rheoli Risg Cyngor Sir y Fflint:

Beth yw Risg?

Mae Risg yn cael ei ddiffinio fel y **posibilrwydd y bydd achosion a fydd yn effeithio cyflawniad y strategaeth ac amcanion y busnes**. Mae 'risg' yn ddigwyddiad fydd yn cael effaith ar y Gronfa ac ar ddarparu gwasanaethau i'n budd-ddeiliaid os na chaiff ei drin ac os na fydd unrhyw reoliadau ar waith.

Beth yw Rheoli Risg?

Rheoli risg yw'r broses o nodi risgiau, gwerthuso'r effaith bosibl, a'u lliniaru, pan yn briodol. Y nod yw lleihau difrifoldeb eu heffaith a pha mor debygol ydyn nhw o ddigwydd pan fo modd. Mae rheoli risg yn amhrisiadwy i'r Gronfa a dylai fod yn rhan o'r gwaith o reoli gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Ein Hathroniaeth yn ymwneud â Rheoli Risg

Rydym yn cydnabod nad yw'n bosib dileu'r holl risgiau, ac nid yw hynny yn rhywbeth y byddem yn ei ddymuno. Mae derbyn a rheoli risg yn weithredol felly yn rhan allweddol o'n strategaeth rheoli risg ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd. Y penderfynydd allweddol wrth ddewis y cam gweithredu i'w gymryd o ran unrhyw risg fydd ei effaith posib ar amcanion y Gronfa yng ngoleuni ein parodrwydd i gymryd risg, yn arbennig o ran materion buddsoddi. Yr un mor bwysig yw cynnal cydbwysedd rhwng cost y camau rheoli risg ac effaith posib y risg yn digwydd.

Wrth reoli risg, byddwn yn:

- sicrhau fod cydbwysedd priodol rhwng cymryd risg a'r cyfleoedd sydd i wneud enillion
- mabwysiadu system a fydd yn ein galluogi i ragweld ac ymateb yn gadarnhaol i newid
- lleihau colledion a niwed i Gronfa Bensiynau Clwyd ac i ni, ac i fudd-ddeiliaid eraill sy'n ddibynnol ar y buddion a'r gwasanaethau a ddarperir
- gwneud yn siŵr ein bod yn dechrau ar ardaloedd newydd o weithgareddau (strategaethau buddsoddi newydd, diweddarau ymagweddau gweinyddol a chyfathrebu, gweithredu newidiadau cenedlaethol), a bod y risgiau y maen nhw'n ei gyflwyno wedi cael eu deall yn iawn ac yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.

Rydym hefyd yn cydnabod nad yw rheoli risg yn ddiwedd ynddo'i hun ac ni fydd yn dileu risg o'r Gronfa nac oddi wrthym ni fel yr Awdurdod Gweinyddu. Fodd bynnag mae'n dechneg rheoli gadarn sy'n rhan hanfodol o sut rydym yn rheoli'r Gronfa.

Mae'r manteision o gael ymagwedd rheoli risg gadarn yn cynnwys:

- sgiliau gwell o ran gwneud penderfyniadau
- gwella perfformiad a darpariaeth gwasanaeth i'n budd-ddeiliaid
- defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol
- diogelu enw da

Gofynion y Ddeddf Pensiynau, Y Rheoleiddiwr Pensiynau a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

Gofynion Rheolaethau Mewnol Y Ddeddf Pensiynau

Mae adran 249B o'r Ddeddf Pensiynau 2004 yn cynnwys y gofyniad canlynol i gael rheolaethau mewnol mewn cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus (sy'n cynnwys CPLIL)

- Rhaid i reolwr cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus sefydlu a gweithredu rheolaethau mewnol sy'n ddigonol at bwrpas sicrhau fod y cynllun yn cael ei weinyddu a'i reoli:
 - yn unol â rheolau'r cynllun, ac
 - yn unol â gofynion y gyfraith

Mae adran 249A o Ddeddf Pensiynau 2004 yn diffinio rheolaethau mewnol fel:

- trefniadau a gweithdrefnau i'w dilyn wrth weinyddu a rheoli'r cynllun
- systemau a threfniadau ar gyfer monitro'r gweinyddu a rheoli, a
- trefniadau a gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer diogelu a chadw asedau'r cynllun yn ddiogel

Yn unol â hynny, mae rheolaethau mewnol yn elfen gritigol o reoli risg.

Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau

Adran 90A o'r Ddeddf Bensiynau 2004:

- yn caniatáu i'r Rheoleiddiwr Pensiynau i gyflwyno codau ymarfer yn cynnwys canllawiau ymarferol sy'n berthnasol i'r broses o weithredu swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth bensiynau perthnasol ac
- angen Rheoleiddiwr Pensiynau i gyflwyno cod ymarfer sy'n berthnasol i nifer o agweddau, un ohonyn nhw'n rheolaethau mewnol

Mae Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau yn cynnwys y modiwlau canlynol sy'n berthnasol i reoli risg, ac mae'r naill neu'r llall yn berthnasol (oherwydd gofynion cyfreithiol sylfaenol) neu'n arfer da ar gyfer cynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus.

- adnabod, gwerthuso a chofnodi risgiau
- rheolaethau mewnol
- adroddiadau sicrwydd ar reolaethau mewnol
- cynllunio parhad gwasanaeth
- gwrthdaro buddiannau
- asesiad risg eu hunain

Mae'r cod yn nodi'r gofynion mewn perthynas â sut y dylai corff llywodraethu ar gyfer cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus weithredu:²

- Adnabod, cofnodi (mewn cofrestr risg, adolygu a gwerthuso risgiau'n rheolaidd (gyda gofynion manwl yn erbyn y meysydd hyn a nodwyd yn y Cod)
- Gyda phrosesau yn eu lle sy'n sefydlu perchnogaeth a'r unigolyn/unigolion cyfrifol am fonitro risgiau ac achosion rhwng cyfarfodydd y corff llywodraethu
- Pennu pa risgiau sydd angen rheolaethau mewnol i leihau'r nifer o achosion a'u heffaith
- Dylunio rheolaethau mewnol i sicrhau fod y cynllun yn cael ei weinyddu a'i reoli yn unol â gofynion cyfreithiol, gan gynnwys rheolau'r cynllun
- Dogfennu ac adolygu rheolaethau mewnol yn rheolaidd (o leiaf yn flynyddol), a sicrhau eu bod nhw hefyd yn cael eu hadolygu pan fydd newidiadau sylweddol yn y cynllun i gynnwys personél, darparwyr a systemau TG.
- Defnyddio system adrodd ar sicrwydd (gan bartïon mewnol ac allanol) i asesu os ydi'r cynllun neu ddarparwyr gwasanaeth yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i reolaethau mewnol.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau dilyniant i sicrhau fod gweithrediadau'r cynllun yn cael eu cynnal mewn achos o darfu ar weithgareddau'r cynllun.
- Cymryd gwrthdaro buddiannau i ystyriaeth wrth adnabod a gwerthuso risgiau
- Ystyried cyflawni asesiad risg rheolaidd ac edrych ar ba mor effeithiol yw elfennau allweddol y systemau llywodraethu?

Cyhoeddiad Rheoli Risg CIPFA

Mae CIPFA wedi cyhoeddi canllaw technegol ar reoli risg yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r cyhoeddiad yn archwilio sut mae risg yn amlygu ei hun ar draws yr ystod o weithgarwch sy'n gyfystyr â rheolaeth a gweinyddiaeth ariannol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a sut, drwy ddefnyddio technegau rheoli risg sefydledig, y gellir adnabod, dadansoddi a rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol.

Yn y Cod, mae corff llywodraethu cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddiffinio fel rheolwr y cynllun (sef Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd), ac felly mae'r cyfrifoldebau wedi cael eu dirprwyo'n bennaf i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau).

Mae'r cyhoeddiad hefyd yn ystyried sut i drin risg yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng nghyd-destun rôl yr awdurdod gweinyddu fel rhan o'r awdurdod lleol yn ehangach a sut y gallai'r dull o ymdrin â risg gael ei gyfathrebu â budd-ddeiliaid eraill.

Egwyddorion Llywodraethu Cyfuno Buddsoddiadau CIPFA ar gyfer Awdurdodau Gweinyddu CPLIL

Mae CIPFA wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfuno buddsoddiadau a'r nifer o wahanol risgiau y mae hyn yn ei gyflwyno i awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hefyd yn amlygu sut mae cyfuno buddsoddiadau yn newid o bosibl maint risgiau presennol a sut y gall awdurdodau gweinyddu ymateb iddynt drwy reolaethau mewnol priodol.

Cais i Gronfa Bensiynau Clwyd

Rydym yn mabwysiadu'r egwyddorion wedi'u cynnwys yn Rheoli Risg Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn nogfen Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiynau Clwyd. Mae'r Polisi Rheoli Risg yn tynnu sylw at sut y byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r egwyddorion hynny trwy ddefnyddio prosesau rheoli risg gan ymgorffori systemau monitro ac adrodd yn rheolaidd. Wrth gyflawni rheoli risg ar gyfer y Gronfa, mae'n rhaid i'r rheiny sy'n gyfrifol gyfeirio at Reoli Risg CIPFA yn y CPLIL a Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau am fwy o ofynion a chanllawiau manwl.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Fel yr Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, rhaid i ni fod yn fodlon bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. At y pwrpas hwn, Rheolwr y Gronfa Bensiynau yw'r unigolyn dynodedig ar gyfer sicrhau fod y broses a amlinellir isod yn cael ei chyflawni.

Fodd bynnag, mewn ymarfer, mae rheoli risg yn effeithiol yn cynnwys nifer o unigolion. Mae'r tabl isod yn egluro'r prif rolau a chyfrifoldebau i sicrhau bod rheoli risg yn effeithiol o ran y Cynllun. Mae'n ategu'r rolau a chyfrifoldebau hynny wedi'u hamlinellu'n Fframwaith Rheoli Risg Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y Cyngor yn ei chyfanrwydd:

Trefniadau Llywodraethu, Rolau Aelodau a Swyddogion	Disgrifiad o'r Rolau a Chyfrifoldebau
Pwyllgor Cronfa Bensiynau	• Cymeradwyo newidiadau i'r Polisi hwn • Sicrhau bod risgiau a chyfleoedd y Gronfa yn cael eu rheoli'n effeithiol, a bod gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith i fonitro'r ffordd mae risgiau strategol sylweddol yn cael eu rheoli.

	• Gosod y lefel briodol o'r parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y Gronfa • Adolygu cofrestr risg llawn y Gronfa ym mhob cyfarfod rheolaidd (h.y. o leiaf bob chwarter) • Sicrhau bod yr holl benderfyniadau strategol wedi cael eu hystyried yn llawn ac yr ymgynghorwyd arnynt (risgiau a chyfleoedd) • Trosolwg a chyfrifoldeb dros risgiau a chyfleoedd y Gronfa
Bwrdd Pensiynau	• Adolygu cofrestr risg llawn y Gronfa ym mhob Bwrdd Pensiynau rheolaidd • Darparu goruchwyliaeth a her ar effeithiolrwydd y fframwaith, prosesau a systemau Rheoli Risg y Gronfa • Darparu goruchwyliaeth a her ar risgiau wedi'u hwuchgyfeirio ac sy'n dirywio • Darparu goruchwyliaeth a her ar fanylder risgiau unigol
Panel Ymgynghorol	• Adolygu'r holl risgiau lefel uchel (coch ac yn cynyddu) ar gyfer sicrwydd a monitro • Cyngori ar reoli'r risgiau hynny wedi'u huwchgyfeirio i'w hadolygu
Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd	Mae Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau cydymffurfiaid â gofynion y Polisi hwn gan gynnwys: • Sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei ddarparu i'r unigolion eraill wedi'u henwi yn yr adran hon fel eu bod nhw'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau. • Sicrhau fod rheoli risgiau yn cael eu trafod yn ôl yr angen i gwrdd ag amcanion y Polisi hwn yng nghyfarfodydd Pwyllgor, Bwrdd, Panel Cyngori a Thimau Rheoli. • Sicrhau fod rheoli risg cadarn yn unol â'r Polisi hwn wedi cael ei integreiddio ym mhob agwedd o reoli'r Gronfa'n ddyddiol • Derbyn diweddariadau risg rheolaidd gan Dîm Rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd ac uwchgyfeirio risgiau yn unol â'r Polisi hwn pan yr ystyrir hynny'n briodol • Adolygu'r holl newidiadau i gofrestrau risg y Gronfa • Sicrhau fod y Polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd (o leiaf bob tair blynedd) a'i ddiweddarau
Tîm Rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd	Mae rheolwyr bob maes o'r Gronfa yn gyfrifol yn bersonol am reoli risgiau yn unol â'r Polisi hwn mewn perthynas â'u hardaloedd (os ydyn nhw'n berchen ar risg neu beidio) gan gynnwys: • Adnabod risgiau a lefelau asesu risg • Sicrhau fod rheolaethau a gweithredoedd yn berthnasol i'r risgiau hynny wedi'u hadnabod yn cael eu dogfennu, gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd • Adolygiad blynyddol (o leiaf) fod rheolyddion a gweithredoedd yn gadarn ac effeithiol

	• Monitro ac adolygu, yn fisol, y risgiau o fewn eu meysydd perthnasol, gan gynnwys cysylltu â'r perchnogion risg (pan dydyn nhw ddim yn nhw) • Sicrhau fod ardaloedd priodol cofrestrau risg y Gronfa yn cael eu diweddarau a'u hadrodd arnynt yn unol â'r Polisi hwn. • Sicrhau fod rheoli risg yn cael ei ystyried yn unol â'r holl fentrau, prosiectau a newidiadau cenedlaethol neu'n berthnasol i'r Gronfa yn ogystal â gweithrediadau dyddiol • Sicrhau fod cofrestrau risg gweithredol mwy manwl yn cael eu creu a'u cynnal pan fo hynny'n briodol • Sicrhau fod trywydd archwilio cadarn o'r holl newidiadau (a rhesymau dros y newidiadau) yn cael ei gynnal ar gyfer cofrestrau risg • Rhannu gwybodaeth berthnasol am risgiau â chydweithwyr mewn meysydd eraill o'r Gronfa • Sicrhau cynllunio parhad busnes cadarn • Sicrhau fod y goblygiadau ehangach o risgiau wedi'u hadnabod yn cael eu hystyried a'u gweithredu gan gynnwys cofnodi ac adrodd ar achosion o dor-cyfraith • Cael cyngor ac arweiniad gan gynghorwyr a chyflenwyr fel bo'r angen ar gyfer rheoli risgiau • Gofyn am sicrwydd gan gynghorwyr a chyflenwyr ynglŷn â rheoli rheolaethau mewnol o fewn eu sefydliadau
Perchnogion Risg	• Rheoli a monitro risgiau penodol wedi'u dyrannu iddyn nhw ar gofrestrau risg • Sicrhau bod adnoddau a phwysigrwydd priodol yn cael eu dyrannu i'r risgiau y maent yn berchen arnynt • Cadarnhau bodolaeth ac effeithiolrwydd y rheolyddion presennol a sicrhau bod unrhyw gamau pellach yn cael eu rhoi ar waith • Adolygu risgiau gyda'u rheolwr (os ddim yn rheolwr) • Darparu sicrwydd parhaus bod y risgiau y maen nhw'n berchennog risg arnyn nhw yn cael eu rheoli'n effeithiol • Uwchgyfeirio unrhyw bryderon neu broblemau yn ymwneud â risgiau i'w rheolwr (os ddim yn rheolwr)
Ymgynghorwyr	• Darparu cyngor parhaus mewn perthynas ag adnabod a rheoli risgiau'r Gronfa, gan gynnwys: ▪ Rhoi gwybod i swyddogion y Gronfa o risgiau newydd neu sydd ar y gweill ▪ Amlygu meysydd mewn cofrestrau risg neu bapurau eraill lle nad yw'r risg yn cael ei adlewyrchu'n briodol • Darparu sicrwydd ar gais am sut y maen nhw'n cwrdd â safonau ar gyfer rheolyddion mewnol o fewn sefydliadau eu hunain


Cynghorydd Annibynnol	- Argymell newidiadau i'r Polisi hwn - Darparu sylwebaeth flynyddol os ydi amcanion y Polisi hwn yn cael eu cyflawni ac effeithiolrwydd y rheoli risg
Tîm Archwilio Mewnol	Cyflawni adolygiadau cyfnodol o risgiau'r Gronfa

Proses Rheoli Risg Cronfa Bensiynau Clwyd

Ein proses rheoli risg yw'r ymagwedd a ddefnyddir gan Gyngor Sir y Fflint ac sy'n unol â'r hyn a gaiff ei argymell gan CIPFA. Mae'n broses barhaus ac fe'i gwneir yn aml drwy ddilyn pedwar cam allweddol:

1. Nodi
2. Asesu
3. Camau Rheoli
4. Monitro ac Adolygu

sydd yn edrych yn systemig ar y risgiau ynghylch gweithgareddau'r Gronfa yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol. Nodir y prif brosesau sy'n ymwneud â rheoli risg yn y ffigwr isod ac mae manylion yn yr adrannau dilynol.



Adnabod Risg

Mae ein proses adnabod risg yn un rhagweithiol ac adweitheddol, sy'n edrych i'r dyfodol h.y. sganio'r gorwel am risgiau posib, ac edrych yn ôl, drwy ddysgu gwersi o adolygu sut mae rheolaethau presennol wedi amlygu eu hunain mewn risgiau i'r sefydliad. Mae proses adnabod risg yn cael ei wneud fel rhan o Gynllunio Busnes, Rheoli Prosiect, busnes fel arfer neu pan fydd rhywbeth yn newid.

Caiff risgiau eu hadnabod mewn nifer o ffyrdd sy'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r rhestr isod:

- ymarferion asesu risg ffurfiol a reolir gan Banel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd
- mesur perfformiad yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt
- monitro yn erbyn cynllun busnes y Gronfa
- canfyddiadau archwiliad mewnol ac allanol ac adroddiadau ymgynghorol eraill
- adborth gan y Bwrdd Pensiynau Lleol, gweithwyr a budd-ddeiliaid eraill
- cyfarfodydd eraill rhwng uwch swyddogion neu staff eraill sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa Bensiynau gyda a heb ymgynghorwyr y Gronfa.
- cydgysylltu â sefydliadau eraill, cymdeithasau rhanbarthol a chenedlaethol, grwpiau proffesiynol, ayb.
- ystyried meysydd risg wedi'u hadnabod yng Nghod Ymarfer Cyffredinol Rheoleiddiwr Pensiynau, Rheoli Risg CIPFA yn y CPLIL a Fframwaith Rheoli Risg Cyngor Sir y Fflint
- penderfyniadau cyfreithiol gan gynnwys rhai yr Ombwdsmon Pensiynau, y Rheoleiddiwr Pensiynau ac achosion llys
- gweithdai cynllunio busnes neu strategol
- cynllunio parhad busnes neu wasanaeth

Unwaith y byddant wedi eu hadnabod, bydd risgiau yn cael eu dogfennu ar brif gofrestr risg y Gronfa, sef y brif ddogfen reoli ar gyfer dadansoddi, rheoli a monitro'r risgiau wedi hynny. Bydd cofrestrau risg ar lefel gweithredol yn cael eu cynnal hefyd pan fo hynny'n briodol ar gyfer prosiectau mawr ac ar gyfer rheoli risg o ran cyllid a buddsoddiad mewn mwy o fanylder.

Gall risgiau newydd ddod i'r amlwg ar unrhyw adeg a dylai adnabod risg gynnwys neilltuo amser ac adnoddau digonol i adnabod y rhain, a dylai felly fod yn ganolog i reolaeth ddyddiol y Gronfa.

Wrth adnabod risgiau bydd y datganiad canlynol yn cael ei ystyried a'i gofnodi:

- Gallai'r (**digwyddiad**) hwn ddigwydd oherwydd (**achos**) a allai arwain at yr (**effaith**) canlynol ar ein hamcanion.

Dadansoddi Risg

Unwaith y bydd risgiau posib wedi eu hadnabod, cam nesaf y broses yw dadansoddi a phroffilio pob risg. Bydd risgiau'n cael eu hasesu yn erbyn y canlynol lle bydd y sgôr ar gyfer tebygolrwydd yn cael ei luosi gyda'r sgôr ar gyfer effaith er mwyn pennu graddfa gyfredol y risg.

		Effaith				
		Pa mor ddifrifol fyddai'r canlyniadau pe bai'r risg yn digwydd?				
		1	2	3	4	5
		Annhebygol	Eithaf Tebygol	Tebygol	Tebygol iawn	Trychinebus
Tebygolrwydd Pa mor debygol ydyw i'r risg ddigwydd?	5 Bron yn sicr	Oren 5	Oren 10	Coch 15	Coch 20	Coch 25
	4 Tebygol	Melyn 4	Oren 8	Coch 12	Coch 16	Coch 20
	3 Posibl	Melyn 3	Oren 6	Oren 9	Coch 12	Coch 15
	2 Annhebygol	Gwyrdd 2	Melyn 4	Oren 6	Oren 8	Oren 10
	1 Prin	Gwyrdd 1	Gwyrdd 2	Melyn 3	Melyn 4	Oren 5

Caiff y meini prawf ar gyfer asesu tebygolrwydd ac effaith eu cynnwys yn Atodiad A er mwyn helpu i hyrwyddo gwerthusiad risg cyson ar draws materion y Gronfa yn ogystal ag integreiddio proses rheoli risg Cyngor Sir y Fflint.

Wrth ystyried y raddfa risg, bydd gennym ystyriaeth i'r rheolaethau presennol sydd mewn grym a bydd y rhain yn cael eu crynhoi ar y gofrestr risg.

Caiff y sgorau dilynol eu dadansoddi fel a ganlyn:

Lliw	Sgôr	Dull	Cam gweithredu
Gwyrdd	1 i 2	Derbyn	Risgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg.
Melyn	3 i 4	Digonol	Risgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg sydd angen eu monitro gan Uwch Reolwyr, os bydd y risg yn gwaethygu
Oren	5 i 10	Goddefol	Risgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ond nid ar lefel dderbyniol
Coch	12 i 25	Annerbyniol	Risgiau sydd y tu hwnt i barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg

Rheoli risg

Bydd y gofrestr risg hefyd yn dangos beth rydym ni'n ei ystyried fel sgôr risg targed ar gyfer pob un o'r risgiau. Bydd hynny'n ein cynorthwyo i benderfynu os oes angen unrhyw weithredu pellach er mwyn rheoli'r risg a allai yn ei dro leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiad risg, neu leihau difrifoldeb y canlyniadau pe bai'n digwydd. Gall camau i reoli risg, y cyfeirir atynt yn aml fel rheolaethau mewnol, gynnwys cymryd camau i osgoi, trosglwyddo a/neu liniaru risg. Mae'n ofyniad cyfreithiol i ni sefydlu a gweithredu rheolyddion mewnol sy'n ddigonol ar gyfer y diben o sicrhau bod y Gronfa yn cael ei gweinyddu a'i rheoli yn unol â rheolau'r cynllun a'r gyfraith.

Cyn y gall unrhyw weithred o'r fath fynd yn ei flaen, efallai y bydd angen cymeradwyaeth Pwyllgor y Gronfa Bensiynau lle nad oes dirprwyaethau swyddogion priodol yn eu lle. Gallai unrhyw newid yn y rheolaethau mewnol achosi unrhyw rai o'r canlynol:

- Dileu risg: er enghraifft, dod â gweithgaredd neu gamau i ben a allai achosi'r risg
- Lleihau risg: er enghraifft, dewis camau sydd â thebygolrwydd is o risg neu roi gweithdrefnau yn eu lle i reoli risg pan fydd yn codi
- Trosglwyddo risg: er enghraifft, trosglwyddo'r risg i barti arall un ai drwy yswiriant neu drwy drefniant cytundebol

Penderfynydd allweddol wrth ddewis y cam gweithredu i'w gymryd fydd ei effaith posib ar amcanion y Gronfa o ran ei pharodrwydd i gymryd risg. Yr un mor bwysig yw cynnal cydbwysedd rhwng cost y camau rheoli risg ac effaith posib y risg yn digwydd. Rydym yn cydnabod nad yw'n bosib dileu'r holl risgiau, felly mae derbyn a rheoli risg yn weithredol yn rhan allweddol o'n strategaeth rheoli risg.

Mae cofrestr risg y Gronfa'n nodi:

- yr holl gamau gweithredu pellach mewn perthynas â risg
- y perchennog ar gyfer y cam gweithredu hwnnw
- y dyddiad lle nad oedd y risg yn bodloni'r sgôr targed
- y dyddiad disgwyledig ar gyfer dychwelyd at y sgôr targed
- y dyddiad adolygu newydd a'r
- perchennog cyffredinol ar gyfer y risg

Lle bo'n angenrheidiol byddwn yn diweddarau cynllun busnes y Gronfa mewn perthynas ag unrhyw gamau y cytunwyd arnynt o ganlyniad i unrhyw risg a nodwyd.

Monitro risg

Mae monitro risg yn rhan derfynol o'r cylch rheoli risg. Mae Uwch Dîm Rheoli'r Gronfa yn monitro risgiau yn fisol gyda chyfranogiad pellach, fel yr amlinellir yn y tabl rolau a chyfrifoldebau uchod, gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, y Panel Ymgynghorol, y Pwyllgor Cronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau, gyda mewnbwn gan gynghorwyr y Gronfa. Mewn gweithgarwch monitro rheoli risg, byddwn yn ystyried:

- a yw'r rheolaethau risg a gymerwyd wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunwyd
- a oedd y prosesau a fabwysiadwyd a'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer cyflawni'r asesiad risg yn briodol
- a fyddai mwy o wybodaeth am y risg a'r canlyniadau posib wedi gwella'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r risg hwnnw
- a oes unrhyw wersi i'w dysgu o ran asesu a rheoli risg yn y dyfodol

Adrodd

Mae gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd gyfrifoldeb i sicrhau fod trefniadau rheoli risg cadarn mewn grym. Yn ogystal mae canllawiau Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (Cymru a

Lloegr) ar greu a gweithredu byrddau pensiynau lleol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn awgrymu y gallai'r Bwrdd Pensiwn adolygu'r gofrestr risg gan ei fod yn ymwneud â swyddogaeth rheoli cynllun yr awdurdod.

Bydd cynnydd o ran rheoli risg strategol yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar brif gofrestr risg y Gronfa a bydd gwybodaeth allweddol yn cael ei ddarparu bob chwarter i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Bwrdd Pensiwn fel rhan o'r diweddariadau rheolaidd ar lywodraethu, buddsoddiadau a chyllido, a gweinyddu a chyfathrebu. Bydd y wybodaeth adrodd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol (o leiaf):

- fersiwn o'r gofrestr risg wedi'i chrynhai
- crynodeb o'r prif newidiadau ers yr adroddiad blaenorol
- dangosfwrdd risg y Gronfa yn dangos sgôr yr holl risgiau presennol ac unrhyw newid ar ffurf darlun

Bydd ffyrdd eraill o adrodd a rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i risgiau yn cael eu cyflawni yn unol â'r bwrdd rolau a chyfrifoldebau uchod a'r broses uwchgyfeirio isod.

Uwchgyfeirio Risg

Mae uwchgyfeirio risgiau newydd neu bresennol sydd gyda thebygolrwydd ac effaith uchel iawn yn angenrheidiol i sicrhau fod Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, a phan yn briodol, y Panel Ymgynghorol ac/neu'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau, yn ymwybodol o'r sefyllfaoedd difrifol hyn a gyda chyfle i gyfrannu at y ffordd y maen nhw'n cael eu rheoli. Mae'r broses uwchgyfeirio hefyd yn sicrhau diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â risg wedi'i uwchgyfeirio.

Mae angen uwchgyfeirio risg pan fydd yn cael ei ystyried fel risg annerbyniol (h.y. risg coch gyda sgôr o 12 neu fwy) a phan fydd y lefel targed risg wedi cael ei dorri. Mae hynny'n debygol o olygu y byddai'r risg yn gallu arwain at:

- Beryglu Cynllun Busnes neu flaenoriaeth strategol y Gronfa ac/neu
- Weithrediadau neu berfformiad y Gronfa yn cael eu peryglu'n ddifrifol a/neu
- Gallai sefyllfa ariannol, gyfreithiol neu enw da'r Cyngor fod yn y fantol a/neu
- Gallai sefyllfa o argyfwng ddatblygu

Yn y sefyllfa hon dylid uwchgyfeirio'r risg fel a ganlyn:

Perchennog y Risg

Yn gyfrifol am uwchgyfeirio risgiau i Bennaeth CBC cyn gynted â bydd y risg yn cael ei adnabod o fod yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio. Gwybodaeth i'w rannu gyda gweddill Rheolwyr CBC.

Aelod o Dîm Rheoli CBC*

Yn gyfrifol am ddarparu diweddariadau rheolaidd (yn fisol o leiaf) ar yr holl risgiau wedi'u huwchgyfeirio at Bennaeth CBC.



Pennaeth CBC

Yn gyfrifol am uwchgyfeirio at y Panel Ymgynghorol os na ellir lleihau'r risg ar unwaith neu reoli / lleihau'r sgôr, a sicrhau fod diweddariadau rheolaidd (yn fisol o leiaf) yn cael eu cyflwyno i'r Panel Ymgynghorol ar risgiau wedi'u huwchgyfeirio.

*Cronfa Bensiynau Clwyd

Lle mae'r risg yn cael ei sgorio yn 15 neu fwy fel y crynhoir isod, bydd y risg yn cael ei uwchgyfeirio ymhellach fel y gwelir yn y diagram isod:

Tebygolrwydd Pa mor debygol ydyw i'r risg ddigwydd?	3	4	5
	Sylweddol	Mawr	Trychinebus
5 Bron yn sicr	Coch 15	Coch 20	Coch 25
4 Tebygol		Coch 16	Coch 20
3 Posibl			Coch 15

Pennaeth CBC

Yn gyfrifol am uwchgyfeirio risg at Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint.



Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Yn gyfrifol am gytuno gyda Phennaeth CBC pryd a phan fydd risg wedi'i uwchgyfeirio yn cael ei rannu gyda Phwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau lle maen nhw'n credu bod y risg yn ei sefyllfa bresennol / a ragwelir o arwyddocâd i reoli'r Gronfa.

Monitro'r Polisi hwn

Er mwyn gweld os ydym yn cwrdd ag amcanion y polisi hwn, bydd yr Ymgynghorydd Llywodraethu Annibynnol yn darparu adroddiad blynyddol ar lywodraethu'r Gronfa bob blwyddyn, a bydd rhan allweddol o'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddarparu gofynion y Polisi hwn.

Risgiau allweddol i ddarparu'r Polisi hwn yn effeithiol

Amlinellir y risgiau allweddol o ran darparu'r Polisi hwn isod. Bydd aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, gyda chymorth Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd, yn monitro'r rhain, a risgiau allweddol eraill, ac yn ystyried sut i ymateb iddynt.

- Mae rheoli risg yn dod yn fecanistig, nid yw'n cael ei ymgorffori yn rheolaeth ddyddiol y Gronfa ac o ganlyniad nid yw amcanion y Polisi'n cael eu cyflawni.
- Newidiadau ym Mhwyllgor y Gronfa Bensiynau a/neu Banel Ymgynghorol y Gronfa Bensiynau a/neu aelodaeth y Bwrdd Pensiynau a/neu uwch swyddogion yn golygu nad yw risgiau allweddol yn cael eu hadnabod o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth.
- Adnoddau annigonol ar gael i asesu yn foddhaol neu i gymryd camau priodol mewn perthynas â'r risgiau a nodwyd
- Dydi'r rheiny sy'n gyfrifol am ddarparu'r Polisi Risg hwn ddim yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau fel y nodir yn y Polisi ac o ganlyniad i hynny dydi amcanion y Polisi ddim yn cael eu gweithredu
- Risgiau yn cael eu hasesu'n anghywir o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth, gan arwain at lefelau amhriodol o risg yn cael ei gymryd heb reolaethau priodol
- Diffyg ymgysylltiad neu ymwybyddiaeth o ffactorau allanol yn golygu nad yw risgiau allweddol yn cael eu hadnabod
- Gwrthdaro o ran diddordeb neu ffactorau eraill yn arwain at fethu adnabod neu asesu risgiau'n briodol.

Costau

Bydd yr holl gostau sy'n ymwneud â gweithredu'r Polisi Rheoli Risg hwn yn cael ei gwneud yn uniongyrchol gan Gronfa Bensiynau Clwyd.

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cymeradwywyd y Polisi Rheoli Risg i ddechrau mewn cyfarfod o Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 24 Mai 2016, ac mae wedi bod yn destun nifer o ddiwygiadau ers hynny. Cymeradwywyd y fersiwn hon ym Mhwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 20 Mawrth 2024. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol bob tair blynedd neu'n gynharach os yw'r trefniadau rheoli risg neu faterion eraill ynddo yn galw am ail-ystyriaeth.

Rhagor o Wybodaeth

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am unrhyw beth yn y Polisi Risg hwn, cysylltwch â:

Phillip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: Philip.latham@siryfflint.gov.uk

Ffôn: 01352 702264

Atodiad A Meini prawf ar gyfer asesu effaith a thebygrwydd

Meini prawf ar gyfer asesu tebygrwydd

Tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd		
1 Annhebygol iawn		Fe all ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol
2 Annhebygol		Gallai ddigwydd, ond annhebygol
3 Posibl		Siawns y gallai ddigwydd
4 Tebygol		Yn debygol o ddigwydd
5 Bron yn sicr		Tebygol iawn o ddigwydd
	Siawns o lai na 5%	
	Siawns o 50%	
	Siawns o fwy na 95%	

Meini prawf ar gyfer asesu effaith

Disgrifiad	Darparu Gwasanaeth	Ariannol ³	Enw Da	Cyfreithiol
Trychinebus	Methu darparu mwyafrif y canlyniadau strategol allweddol neu flaenoriaethau / dyletswyddau statudol ddim yn cael eu darparu • Effaith enfawr ar y gweithlu gan effeithio mwy na hanner o dimau CBC neu fwy na 50% o staff • Yn methu â chwrdd â'r amserlenni darparu yn gyson, yr amserlen yn gyfreithiol a'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer y Gronfa (wedi methu mwy na 50% o'r amserlenni sydd wedi cael eu monitro) • Cyfrifiadau budd gwirioneddol anghywir yn effeithio ar dros 500 o aelodau • Gwybodaeth gyffredinol/amcangyfrifiad anghywir yn cael ei gyfathrebu a allai effeithio ar 25% o aelodau A,D neu P (categoriâu ar wahân neu wedi uno categorïau) • Oedi mewn talu pensiynwyr o fwy na 3 diwrnod gwaith	• Mae asedau hylifol y Gronfa (asedau wedi'u buddsoddi, cyfraniadau a llif arian asedau) wedi'u defnyddio'n llawn ac ni ellir talu buddion/rhwymedigaeth gytundebol yn y dyfodol • Lleihad yn y lefel gyllido (h.y. 30% yn fwy ers y prisiad diwethaf) a/neu rhagolwg o'r enillion y disgwylir yn erbyn chwyddiant (h.y. -1% y flwyddyn neu fwy yn erbyn y rhagdybiaeth prisiad diwethaf) sydd ar ôl ei gyfuno gyda'r disgwyl i barhau tan o leiaf y prisiad actiwaraid nesaf a fyddai'n golygu cyfraniadau cyflogwr anfforddiadwy a fyddai'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus • Mae newid ym mhroffil demograffig y Gronfa yn arwain at gyfraniadau cyflogwr anfforddiadwy sy'n effeithio gwasanaethau cyhoeddus • Mae nifer arwyddocaol o gyflogwyr (yn cynnwys un neu fwy o'r prif Gynghorau) yn dod yn fethdalwyr ac yn methu â thalu'r cyfraniadau angenrheidiol a fyddai oherwydd hynny yn effeithio ar gyflogwyr eraill yn y Gronfa	Ymchwiliad Cyhoeddus neu sylw anffafriol yn y cyfryngau cenedlaethol Ymyrraeth ffurfiol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol/y Rheoleiddiwr Pensiynau/Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun neu ymyrraeth reolaethol arall / arfer pwerau	Camau cyfreithiol bron yn sicr o gael eu cymryd, methu ag amddiffyn disgwylir nifer o Weithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) ac / neu Ombwdsmon Pensiynau (100+), bron yn bendant yn methu eu hamddiffyn

Bydd cofrestr risg penodol sy'n berthnasol i gyllido a buddsoddiadau yn cael ei gynnal a gyda metrigau a chategoriâu pellach i bennu lefel y risg yn gyffredinol.

Disgrifiad	Darparu Gwasanaeth	Ariannol	Enw Da	Cyfreithiol
Mawr	Amhariad difrifol ar lefel gwasanaeth gyda llawer o ganlyniadau neu briodoldebau strategol allweddol wedi cael eu hoedi neu'n methu cael eu darparu • Effaith difrifol ar y gweithlu sy'n cael effaith ar o leiaf dau dîm CBC (ond llai na hanner) neu fwy na 20% i 50% o staff • Yn methu â chwrdd ag amserlenni yn gyfreithiol a'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer y Gronfa (wedi methu mwy na 20% i 50% o'r amserlenni sydd wedi cael eu monitro) • Cyfrifiadau budd gwirioneddol anghywir yn effeithio ar 250-500 o aelodau • Gwybodaeth gyffredinol/amcangyfrifiad anghywir yn cael ei gyfathrebu a allai effeithio ar 10-25% o aelodau A,D neu P (categoriâu ar wahân neu wedi uno categorïau) • Oedi mewn talu pensiynwyr o 1 neu 2 diwrnod gwaith	• Mae asedau hylifol (asedau wedi'u buddsoddi, cyfraniadau a llif arian asedau) yn 20% o gyfran cyfanswm yr asedau a gall y dewis i beidio â thalu buddion/rhwymedigaethau cytundebol yn y dyfodol gael effaith enfawr • Lleihad yn y lefel gyllido (h.y. 20-30% ers y prisiad diwethaf) ac/neu ragolwg o'r enillion y disgwylir yn erbyn chwyddiant (h.y. – 0.75%-1% y flwyddyn yn erbyn y rhagdybiaeth prisiad diwethaf) sydd ar ôl ei gyfuno gyda'r disgwyl i barhau tan o leiaf y prisiad actiwaraid nesa a fyddai'n golygu cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau cyflogwr sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus • Gall newid ym mhroffil demograffig y Gronfa arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfraniadau sy'n effeithio gwasanaethau cyhoeddus • Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr mawr (heb fod yn Gynghorau) wedi mynd yn fethdalwyr ac yn methu talu'r cyfraniadau angenrheidiol sydd yna'n cael effaith ar weddill y cyflogwyr	Craffu dwys gan y cyhoedd a'r cyfryngau Ymgysylltiad gan DLUHC / Rheoleiddiwr Pensiynau / Bwrdd Cynghori yn berthnasol i'r sefyllfa (ond nid ymyrraeth ffurfiol / pwerau yn cael eu hymarfer)	Camau cyfreithiol bron yn sicr o gael eu cymryd a byddai'n anodd amddiffyn Disgwylir rhai Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol ac/neu Ombwdsmon Pensiynau (20 i 100)

Disgrifiad	Darparu Gwasanaeth	Ariannol	Enw Da	Cyfreithiol
Sylweddol	Amhariad i un neu fwy o wasanaethau / oedi neu ddiffyg darparu nifer o ganlyniadau strategol allweddol neu flaenoriaethau - Ychydig o effaith ar y gweithle yn cael effaith ar un tîm CBC neu 10% i 20% o staff - Yn methu â chwrdd ag amserlenni yn gyfreithiol ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer y Gronfa (wedi methu mwy na 10% i 20% o'r amserlenni sydd wedi cael eu monitro) - Cyfrifiadau budd gwirioneddol anghywir yn effeithio ar 100-250 o aelodau - Gwybodaeth gyffredinol/amcangyfrifiad anghywir yn cael ei gyfathrebu a allai effeithio ar 5%-10% o aelodau A,D neu P (categoriâu ar wahân neu wedi uno categorïau)	- Mae asedau hylifol y Gronfa (asedau wedi'u buddsoddi, cyfraniadau a llif arian asedau) yn 40% o gyfran cyfanswm yr asedau a gall dewis i beidio â thalu buddion/rhwymedigaethau cytundebol yn y dyfodol gael effaith enfawr - Lleihad yn y lefel gyllido (h.y. 15-20% ers y prisiad diwethaf) a/neu rhagolwg o'r enillion y disgwylir yn erbyn chwyddiant (h.y. -0.5%-0.75% y flwyddyn yn erbyn y rhagdybiaeth prisiad diwethaf) sydd ar ôl ei gyfuno gyda'r disgwyl i barhau tan o leiaf y prisiad actiwaraid nesaf a fyddai'n golygu cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau cyflogwr sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus - Gall newid ym mhroffil demograffig y Gronfa arwain at gostau annisgwyl a chynnydd sylweddol mewn cyfraniadau sy'n effeithio gwasanaethau cyhoeddus - Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr mawr (heb fod yn Gynghorau) wedi mynd yn fethdalwyr ac yn methu talu'r cyfraniadau angenrheidiol sydd yna'n cael effaith ar weddill y cyflogwyr	Diddordeb gan y cyfryngau'n lleol Craffu gan bwyllgor neu gorff allanol Gwybodaeth negyddol ar lefel genedlaethol (e.e yn allanol ar dablau cynghair CPLIL)	Disgwyl camau cyfreithiol Disgwylir rhai Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol ac/neu Ombwdsmon Pensiynau (5 i 20)

Disgrifiad	Darparu Gwasanaeth	Ariannol	Enw Da	Cyfreithiol
Tebygol	Amhariad dros dro ar gyfer un maes gwasanaeth / oedi wrth ddarparu neu gydag un o ganlyniadau neu flaenoriaethau strategol allweddol y Cyngor • Effaith ar y gweithle y gellir ei reoli yn cael effaith ar 5% i 10% o staff CBC • Yn methu â chwrdd ag amserlenni yn gyfreithiol ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer y Gronfa (wedi methu mwy na 5% i 10% o'r amserlenni sydd wedi cael eu monitro) • Cyfrifiadau budd gwirioneddol anghywir yn effeithio ar 50-100 o aelodau • Gwybodaeth gyffredinol/amcangyfrifiad anghywir yn cael ei gyfathrebu a allai effeithio ar 2%-5% o aelodau A,D neu P (categoriâu ar wahân neu wedi uno categorïau)	• Mae asedau hylifol y Gronfa (asedau wedi'u buddsoddi, cyfraniadau a llif arian asedau) yn 60% o gyfran cyfanswm yr asedau a gall y dewis i beidio â thalu buddion/rhwymedigaethau cytundebol yn y dyfodol gael effaith cymedrol • Lleihad yn y lefel gyllido (h.y. -5%-15% ers y prisiad diwethaf) ac/neu rhagolwg o'r enillion y disgwylir yn erbyn chwyddiant (h.y. -0.25%-0.5% y flwyddyn yn erbyn y rhagdybiaeth prisiad diwethaf) sydd ar ôl ei gyfuno gyda'r disgwyl i barhau tan o leiaf y prisiad actiwaraid nesaaf a fyddai'n golygu cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau cyflogwyr sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus • Gall newid ym mhroffil demograffig y Gronfa arwain at gostau annisgwyl a chynnydd cymedrol mewn cyfraniadau sy'n effeithio gwasanaethau cyhoeddus • Mae nifer o gyflogwyr bach wedi mynd yn fethdalwyr ac yn methu talu'r cyfraniadau angenrheidiol sydd yna'n cael effaith ar weddill y cyflogwyr	Angen craffu mewnol i atal uwchgyfeirio Gwybodaeth negyddol ar lefel rhanbarthol (e.e yn allanol ar dablau cynghrair Sirol neu Gymreig)	Camau cyfreithiol yn bosibl ond yn annhebygol ac mae modd amddiffyn Disgwylir rhai Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol ac/neu Ombwdsmon Pensiynau (hyd at 5) ond disgwylir cwynion anffurfiol yn bennaf

Disgrifiad	Darparu Gwasanaeth	Ariannol	Enw Da	Cyfreithiol
Dibwys	Dim effaith amlwg - Ychydig iawn o effaith ar y gweithlu sy'n cynnwys llai na 5% o staff CBC - Yn methu rhai amserlenni yn gyfreithiol ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer y Gronfa (wedi methu llai na 5% o'r amserlenni sydd wedi cael eu monitro) - Cyfrifiadau budd gwirioneddol anghywir yn effeithio ar dros 50 o aelodau - Gwybodaeth gyffredinol/amcangyfrifiad anghywir yn cael ei gyfathrebu a allai effeithio ar lai na 2% o aelodau A,D neu P (categoriâu ar wahân neu wedi uno categorïau)	- Mae asedau hylifol y Gronfa (asedau wedi'u buddsoddi, cyfraniadau a llif arian asedau) yn >60% o gyfran cyfanswm yr asedau a gall y dewis i beidio â thalu buddion/rhwymedigaethau cytundebol yn y dyfodol gael effaith bychan - Lleihad yn y lefel gyllido (h.y. 0%-5% ers y prisiad diwethaf) ac/neu ragolwg o'r enillion y disgwylir yn erbyn chwyddiant (h.y. 0%-0.25% y flwyddyn yn erbyn y rhagdybiaeth prisiad diwethaf) sydd ar ôl ei gyfuno gyda'r disgwyl i barhau tan o leiaf y prisiad actiwaraid nesaf a fyddai'n golygu cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau cyflogwyr sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus - Gall newid ym mhroffil demograffig y Gronfa arwain at gostau annisgwyl a chynnydd cymedrol mewn cyfraniadau sy'n effeithio gwasanaethau cyhoeddus - Mae nifer isel o gyflogwyr bach wedi mynd yn fethdalwyr ac yn methu talu'r cyfraniadau angenrheidiol sydd yna'n cael effaith ar weddill y cyflogwyr	Adolygiad mewnol	Camau cyfreithiol yn annhebygol iawn ac mae modd amddiffyn Nifer fechan iawn o gwynion anffurfiol (o dan 10) ac yn annhebygol o fod unrhyw Weithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol neu gwynion i'r Ombwdsmon Pensiynau



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.